Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 1 Tachwedd 2023, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghoydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor. Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

**42. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd K. R. Jones gan na allai ymuno â'r cyfarfod ar-lein.

**43. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNION (ATDOLEN A) – MIS HYDREF 2023**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1705 | BT | 535.87 | Ffioedd teleffôn a chynnal a chadw |
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1684 | HSBC | 8.00 | Ffioedd banc |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol HW |
| 1707 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.11 | Didyniadau TWE mis Medi 2023 |
| 1708 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg mis Medi 2023 |
| 1709 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.51 | Tâl net mis Hydref 2023 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig 2023/24 – taliad 7 o 10 |
| 1658 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 7 o 12 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol GN |
| | Cyfanswm taliadau | **18,077.24** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 286.44 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Ad-daliad Treth ar Werth, Chwarter 2 | 10,423.30 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 23.03 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 23.03 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 23.03 |

| | | |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 23.04 |
| | **Cyfanswm incwm** | **10,801.87** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

**44. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017 ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taliad Rhif | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1719 | Cyngor Sir Ddinbych | Ffioedd etholiad (Ward Cefndy, Y Rhyl) | 3,764.23 |
| 1720 | Sage & Co | Gwasanaethau Cyflogres Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2023) | 102.60 |
| 1721 | Theatr Fach y Rhyl | Dau docyn i gynhyrchiad Bad Girls ar 27 Hydref 2023 (Y Maer a'r Consort) | 20.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **3,886.83** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a llofnodi'r taliadau gan ddau gynghorydd.*

**45. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GWAREDU EIDDO NAD OES EI ANGEN MWYACH – 14-18 STRYD EDWARD HENRY, Y RHYL.**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymgynghoriad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr ymgynghoriad heb unrhyw wrthwynebiad.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb ar frys.*

**46. YMGYNGHORIAD: PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymgynghoriad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr ymgynghoriad heb unrhyw wrthwynebiad.*

**47. EITEM YCHWANEGOL: ETHOLIAD WARD CEFNDY**

Cynghorodd Clerc y Dref fod y nifer gofynnol o etholwyr wedi gofyn am gynnal etholiad yn ward Cefndy a bod y ffurflenni enwebu ymgeiswyr ar gael gan Swyddog Etholiadau Cyngor Sir Ddinbych.

Dylid dychwelyd ffurflenni enwebu i Gyngor Sir Ddinbych erbyn 4.00pm ddydd Gwener, 10 Tachwedd, gyda'r etholiad i'w gynnal ddydd Iau, 7 Rhagfyr 2023, os enwebir o leiaf dau ymgeisydd.

**48. <u>EITEM YCHWANEGOL: CYFARFOD DARPARIAETH MYNWENT</u>**

Hysbysodd Clerc y Dref yr aelodau ei fod ef a'r Maer wedi mynd i gyfarfod gyda Chyngor Tref Rhuddlan ar 26 Hydref, yn unol â'r cyfarwyddyd, i drafod darpariaeth mynwentydd yn y dyfodol a byddai'n cyflwyno adroddiad manwl yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Ychwanegodd Clerc y Dref y gellid trefnu cyfarfod arall cyn cyfarfod nesaf y Cyngor ac felly gofynnodd am ganiatâd yr aelodau i'r Maer ac yntau fynd i gyfarfod o'r fath.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *awdurdodi'r Maer a Chlerc y Dref i fynd i unrhyw gyfarfodydd dilynol am y mater hwn.*

**49. <u>Y GANOLFAN GROESO</u>**

Adroddodd Clerc y Dref fod cynnig Cyngor y Dref i ddarparu 50% o'r costau i gadw'r ganolfan ar agor am chwe mis yn ystod misoedd y gaeaf wedi'i dderbyn, gyda'r 50% arall i'w sicrhau gan Rhyl BID.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn y wybodaeth.*

**50. <u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: ………………………

Dyddiad: ………………………